Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Datblygu System Gofal Cymunedol Integredig

Datganiad sefyllfa ar y cyd 2024/25 ar gyfer cronfeydd Llywodraeth Cymru sy’n cefnogi ymyrraeth gynnar, atal a chymorth cymunedol integredig.

llyw.cymru

# Cynnwys


Rhagair 1

Gwireddu System Iechyd a Gofal Ddi-dor: Y System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru 3

Buddsoddiad mewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cefnogi System Gofal Cymunedol Integredig 7

Y Rhaglen Ymhellach yn Gyflymach: Cyflymu'r System Gofal Cymunedol Integredig yng Nghymru 8

Trosolwg a Chipolwg ar y Gronfa Tai â Gofal 11

Trosolwg a Chipolwg ar y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso 17

Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Sbarduno Trawsnewid ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol 23

– Adolygiad o'r Flwyddyn 26

– Deall y Data: Faint wnaethom ni a pha wahaniaeth a wnaeth i bobl 27

– Modelau Gofal Integredig 30

Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng 35

Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol 38

Casgliad a'r Camau Nesaf 39


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52861 ISBN digidol 978-1-80633-818-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Rhagair

**Fel cydweithwyr Gweinidogol, mae'n bleser gennym gyflwyno'r datganiad sefyllfa wedi'i ddiweddaru, sy'n adlewyrchu'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf yn ein hymdrechion ar y cyd i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r datganiad sefyllfa hwn yn ailddatgan ein hymrwymiad i ddull cydweithredol, system gyfan o fuddsoddi a diwygio, gan ganolbwyntio'n glir ar ddarparu System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS) i Gymru**

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cymryd camau breision tuag at ein dyhead cyffredin diolch i fuddsoddiad strategol parhaus gwerth mwy na chwarter biliwn o bunnoedd bob blwyddyn drwy'r buddsoddiad Proffesiwn Perthynol i Ofal Iechyd, cyllid Ymhellach yn Gyflymach, y Gronfa Tai â Gofal (HCF), y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso (IRCF), a'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r cronfeydd hyn yn ganolog i ail-lunio sut mae gofal yn cael ei ddarparu, gan sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn ataliol ac wedi'i wreiddio mewn cymunedau. Er bod y datganiad hwn yn canolbwyntio ar y cronfeydd mawr hyn, rydym hefyd yn cydnabod cyfraniadau hanfodol rhaglenni cenedlaethol eraill fel rhaglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, y Rhaglen Gofal Sylfaenol Strategol, a'r Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol. Gyda'i gilydd, mae'r mentrau hyn yn helpu i ymwreiddio egwyddorion yr ICCS ledled Cymru.

Un o brif nodau'r ICCS yw sicrhau bod pobl yn cadw'n iach ac allan o'r ysbyty lle bynnag y bo modd. Rhaid i waith atal ac ymyrraeth gynnar fod wrth wraidd ein dull gweithredu. Mae gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yr un ddyletswydd i gydweithredu, gan sicrhau cyfrifoldeb ar y cyd am ymyrryd yn gynnar a darparu gwasanaethau integredig. Mae 'Cymru Iachach' yn amlinellu ein gweledigaeth genedlaethol ar gyfer trawsnewid, gyda phwyslais cadarn ar atal, ymyrraeth gynnar, a gofal cymunedol. Mae'r holl gronfeydd wedi'u cynllunio i gefnogi'r newid hwn, gan helpu pobl i fyw'n dda gartref neu yn eu cymunedau a lleihau'r pwysau ar ysbytai. Bydd y Grant Trawsnewid Llwybrau Gofal gwerth £30 miliwn sydd newydd ei gyhoeddi yn darparu rhagor o gymorth ar gyfer capasiti cymunedol, gan helpu i atal cynnydd mewn angen a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi. Rhaid pwyso a mesur y buddsoddiad newydd hwn ochr yn ochr ag ymdrechion ehangach Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Iechyd i ddatblygu capasiti cymunedol. Mae cysondeb strategol ledled y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a'r gwerth am arian mwyaf.

Rydym eisiau datgan yn glir nad cyfrwng i reoli grantiau traws-sector Llywodraeth Cymru yn unig yw'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Maent yn sbarduno cydweithredu rhwng systemau ac integreiddio gwasanaethau. Mae'n hollbwysig bod pob partner yn ymgysylltu'n ystyrlon â'i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan gydnabod ei rôl strategol wrth lunio dyfodol gofal yng Nghymru.
O dan ganllawiau diwygiedig Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), gofynnwyd i bob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol nodi 'person cyfrifol' ar gyfer integreiddio.

Fel Gweinidogion, byddwn yn cyfarfod bob blwyddyn â'r unigolion hyn a Chadeiryddion Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gryfhau ffocws, atebolrwydd a chysondeb â'n dull gweithredu integredig.

Mae gwaith y Pwyllgor Gweithredu Gofal a'r trefniadau cynllunio ar gyfer y gaeaf drwy'r Her 50 Diwrnod wedi dangos grym cydweithredu traws-sector wrth gyflawni canlyniadau gwell i bobl. Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi gweld enghreifftiau rhagorol o waith arloesol a gweithio mewn partneriaeth, ac mae'n rhaid i ni fynd ati nawr i ddatblygu, ymestyn ac ymwreiddio'r gwaith hwn. Drwy'r Her 50 Diwrnod, rydym wedi rhannu enghreifftiau o arferion da o bob cwr o Gymru. Mae Cymru yn wlad rhy fach i gyfiawnhau'r lefel o amrywiaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rhaid i ni rannu, dysgu ac addasu er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a hyder y cyhoedd yn ein system iechyd a gofal.

Hefyd, mae'n destun balchder i ni gyhoeddi mai Cymru fydd 'Cenedl Marmot' gyntaf y byd, gan ymrwymo i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Mae gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd, fel partneriaid statudol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau sy'n cefnogi penderfynyddion ehangach iechyd a llesiant - megis tai, cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid statudol i rannu, datblygu a lledaenu arferion da. Ein nod yw cynnig gofal cymunedol integredig cyson a theg ledled Cymru, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael cymorth effeithiol a chydgysylltiedig yn agosach at eu cartrefi, lle bynnag maen nhw'n byw. Hefyd, rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i gefnogi ein gweithlu rheng flaen drwy symleiddio prosesau a meithrin prosesau cydweithredu ar draws ffiniau sefydliadol. Bydd hyn yn helpu timau i weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd a darparu cymorth cyfannol i bobl yn eu cymunedau.

Rydym yn cydnabod y cynnydd parhaus sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn, ond gwyddom fod angen rhagor o ffocws ac ymdrech. Drwy ddatblygu partneriaethau, cryfhau atebolrwydd, a chyflymu'r broses o ddarparu gwasanaethau integredig, byddwn yn parhau i drawsnewid ein system a gwireddu'r uchelgais ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru.



**Jeremy Miles AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol



**Jayne Bryant AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai




**Dawn Bowden AS**
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol



**Sarah Murphy AS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

# Gwireddu System Iechyd a Gofal Ddi-dor: Y System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru

Ffigur 1: Glasbrint y System Gofal Cymunedol Integredig fersiwn 4 2025



Mae ein hymrwymiad i greu System Gofal Cymunedol Integredig (ICCS) i Gymru yn gam sylweddol tuag at gyflawni nodau **Cymru Iachach** yn ogystal ag ymateb i rai o ganfyddiadau adroddiad Darzi 2024.

Yn sylfaenol, dyma'n dull o ddatblygu cynnig gofal ataliol ac integredig wedi'i leoli mewn lleoedd / yn y gymuned, sy'n cael ei alluogi'n genedlaethol (gan Lywodraeth Cymru), wedi'i hwyluso'n rhanbarthol (gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol) a'i ddarparu'n lleol (drwy drefniadau clwstwr a chymunedol).

Mae'r ICCS yn fframwaith trawsnewid strategol. Mae'n cysoni polisi, cyllid a darpariaeth ar draws y sectorau er mwyn creu profiad gofal integredig a di-dor sy'n galluogi pobl i fyw'n dda gartref, osgoi mynd i'r ysbyty yn ddiangen, a chael cymorth amserol, cydgysylltiedig pan fo angen.

## Gwireddu'r Weledigaeth: System sy'n Aeddfedu

Nawr yn ei ail flwyddyn o ddatblygiad, mae'r glasbrint ICCS (ffigur 1) wedi esblygu o gysyniad i weithredu. Mae'n seiliedig ar uchelgais glir i gyflawni *"yr hyn sy'n bwysig"* i bobl drwy system sy'n:

- Rhagweithiol o ran hybu iechyd ac atal angen rhag dwysáu.
- Canolbwyntio ar yr unigolyn gan gefnogi annibyniaeth a llesiant yn y cartref.
- Darparu gofal a chymorth yn nes at y cartref mewn ffordd integredig.
- Ymatebol o ran sicrhau pontio diogel, amserol (rhyddhau) o'r ysbyty yn ôl i'r gymuned.

## Galluogwyr System Integredig: Datblygu'r Amodau ar gyfer Llwyddiant

Er mwyn cyflwyno'r trawsnewidiad hwn yn eang, rydym yn buddsoddi mewn galluogwyr hanfodol sy'n newid y system:

- **Fframweithiau canlyniadau a mesuriadau** cyffredin er mwyn sbarduno atebolrwydd a dysgu.
- **Gweithlu** hyderus, galluog sy'n gweithredu ar draws ffiniau sefydliadol.
- **Seilwaith digidol** rhyngweithredol i gefnogi rhannu gwybodaeth amser real.
- **Llywodraethiant ac atebolrwydd integredig** fel bod modd gwneud penderfyniadau ar y cyd.
- Adnoddau cyfunol a dulliau **cynllunio a chomisiynu ar y cyd** er mwyn sicrhau'r gwerth mwyaf a'r effaith fwyaf.
- **Arweinyddiaeth a diwylliant** cydweithredol sy'n hyrwyddo dulliau gweithredu arloesol a gweithio mewn partneriaeth.
- **Gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg** sy'n grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

## Cynnydd hyd yn hyn

Ysgogodd pwysau'r gaeaf 2023/24 a 2024/25 ystod o ymatebion cydweithredol ledled Cymru, sydd wedi ein helpu i gyflymu rhai o'r blociau adeiladu allweddol ar gyfer ein ICCS. Ymhlith y rhain, gwnaeth Pwyllgor Gweithredu Gofal dan arweiniad Gweinidogion gyfraniad pwysig at gyflymu gwelliannau o ran rhyddhau cleifion a llif cleifion, gan gyfrannu at newid ehangach tuag at ofal a chymorth ataliol ac integredig, fel rhan o'r weledigaeth o gyflwyno ICCS i Gymru.

Cafodd y Pwyllgor ei gynnull yn wreiddiol i fynd i'r afael â phwysau brys y gaeaf, ac fe helpodd i brofi a chyflymu dulliau gofal integredig, gan weld rhai llwyddiannau nodedig drwy Her 50 Diwrnod y Gaeaf ar gyfer Gofal Integredig a'r adnoddau ychwanegol gwerth £19m a ddarparwyd i helpu i adeiladu capasiti a gwella llif y system. Fe wnaeth ei waith lywio datblygiad parhaus y dull ICCS, sydd bellach yn darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y model a gwelliant parhaus y system, yn ogystal ag ysgogi dull system gyfan o gynllunio ar gyfer gaeaf 2025/26.

Roedd Her 50 Diwrnod y Gaeaf ar gyfer Gofal Integredig yn drobwynt o ran dull Cymru o ddarparu gwydnwch a gofal integredig yn y gaeaf.

Eleni, rydym wedi gweithio ar y cyd â phartneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill i ddatblygu nifer o elfennau seilwaith craidd sydd â'r nod o ddatblygu model ICCS newydd. Mae'r ymdrechion hyn yn cynnwys mapio a chydweddu canlyniadau a mesurau cyffredin a chreu'r trefniadau llywodraethu Gofal Integredig gyda chylch gorchwyl cysylltiedig. Disgrifir y trefniadau newydd ar gyfer cyfarfodydd Gofal Integredig isod.

Mae'r saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi dangos datblygiad cadarnhaol o ran dulliau cynllunio strategol yr ICCS a byddwn yn cynorthwyo rhanbarthau i fanteisio'n llawn ar y cyfle i ymgorffori egwyddorion y system yn llawn.

## Cydweddu a Buddsoddi Strategol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r strwythur llywodraethiant er mwyn helpu i gyflwyno'r ICCS, gan adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y Pwyllgor Gweithredu Gofal gynt. Mae hyn yn cynnwys sefydlu'r canlynol:

- Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Gofal Integredig, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
- Y Grŵp Darparu Gofal Integredig, sy'n dwyn ynghyd uwch-swyddogion cyfrifol.
- Cyfarfodydd Atebolrwydd Integreiddio Rhanbarthol Blynyddol gyda phob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae'r strwythurau hyn yn sicrhau cydweddu ar draws ystod eang o raglenni, gan gynnwys y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys ac Argyfwng, y Gronfa Integreiddio Ranbarthol, y Gronfa Iechyd a Gofal, y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, Ymhellach yn Gyflymach, a buddsoddiad mewn gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd – sydd gyda'i gilydd yn cynrychioli mwy na **£300 miliwn o fuddsoddiad blynyddol**. Mae'r cydweddu hwn yn helpu i gydgrynhoi tirwedd polisi a chyllid Cymru mewn ffordd strategol, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio ar gyfer modelau gofal integredig, cynaliadwy yn y gymuned.

## Arweinyddiaeth Ranbarthol ac Arloesi Lleol

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan yn parhau i fod yn hanfodol o safbwynt llunio a chyflwyno'r ICCS. Maen nhw'n gweithio i sicrhau bod uchelgais genedlaethol yn arwain at ddarpariaeth sy'n ymateb yn lleol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. I gefnogi hyn, maeLlywodraeth Cymru wedi diwygio'r Canllawiau Statudol Rhan 9 ar Weithio mewn Partneriaeth, gan egluro'r berthynas rhwng Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan ac atgyfnerthu'r cydgyfrifoldeb am adeiladu system gofal cymunedol integredig.

## Edrych tua'r Dyfodol: System sydd â Phwrpas a Momentwm

Mae'r ICCS yn ymrwymiad beiddgar, hirdymor i drawsnewid gofal yng Nghymru. Mae'r system wedi'i chynllunio nid yn unig i ymateb i'r heriau presennol, ond i ragweld anghenion y dyfodol. Mae'n seiliedig ar brosesau atal, yn cael ei sbarduno gan ganlyniadau, ac yn defnyddio dulliau cydweithredu.

Wrth i ni symud ymlaen, rhaid sicrhau ein bod ni'n parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo integreiddio, lledaenu arferion da, ac ymwreiddio arloesedd, gan sicrhau bod pob person yng Nghymru yn gallu derbyn y gofal iawn, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

# Buddsoddiad mewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cefnogi System Gofal Cymunedol Integredig

Mae'r buddsoddiad cylchol ychwanegol o £5 miliwn mewn proffesiynau perthynol i iechyd, a lansiwyd ym mis Ebrill 2023, yn gam sylweddol ymlaen tuag at gryfhau gweithlu gofal cymunedol a gofal sylfaenol Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi'i dargedu'n strategol i ehangu presenoldeb Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd cofrestredig a rolau gweithwyr cymorth mewn lleoliadau cymunedol, gan sicrhau gofal amserol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol ac yn dda.

Mae'r buddsoddiad hwn yn un o gonglfeini'r gwaith o adeiladu System Gofal Cymunedol Integredig gadarn a chynaliadwy i Gymru, sy'n cyd-fynd ag uchelgais Datblygu Clwstwr Carlam a'r agenda trawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. O dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd, a Chyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol a Gofal Cymunedol, mae Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan wedi chwarae rhan ganolog yn y gwaith o lunio darpariaeth leol, gyda chymeradwyaeth drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan sicrhau dull gwirioneddol gydweithredol, system gyfan o ddatblygu ICCS i Gymru.

Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a sicrwydd cenedlaethol, gydag adroddiadau cadarn i Lywodraeth Cymru sy'n dangos gwerth ac effaith y buddsoddiad hwn.

## Cyflawniadau Allweddol Hyd yn Hyn

- **102.6** o swyddi cyfwerth ag amser cyflawn ychwanegol wedi'u creu ledled Cymru.
- Gwasanaethau gweithwyr proffesiynol perthynol i Iechyd wedi'u **trawsnewid yn sylweddol**, gan alluogi:
  - **Symud strategol at ofal cymunedol**, gan wella mynediad a'r gallu i ymateb.
  - Gwell **capasiti cymunedol**, lleihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi, a chynorthwyo'r broses o ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn amserol.
- Cryfhau g**waith clwstwr**, gan ganolbwyntio ar atal ac iechyd y boblogaeth.

Yn ogystal â sicrhau manteision uniongyrchol, mae'r buddsoddiad hwn yn gosod y sylfaen ar gyfer model gofal mwy integredig, rhagweithiol a chynaliadwy ledled Cymru. I weld adroddiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn manwl, sy'n dangos yr effaith a'r hyn a ddysgwyd ym mhob rhanbarth, cliciwch ar y ddolen isod:

Buddsoddiad Ychwanegol mewn Proffesiynau Perthynol i Iechyd – Gofal Sylfaenol Un

# Y Rhaglen Ymhellach yn Gyflymach: Cyflymu'r System Gofal Cymunedol Integredig yng Nghymru

Lansiwyd Ymhellach yn Gyflymach i helpu i gyflymu rhai o elfennau allweddol y gweithlu wrth ddatblygu ICCS i Gymru. Mae £11.95 miliwn yn cael ei fuddsoddi bob blwyddyn yn y rhaglen, sy'n canolbwyntio ar dri maes blaenoriaeth i gynyddu capasiti cymunedol, yn unol â nodau'r ICCS i

- Symud gofal yn agosach at y cartref ac osgoi derbyniadau i'r ysbyty.
- Adeiladu capasiti cymunedol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau acíwt
- Darparu 'yr hyn sy'n bwysig' i unigolion drwy ofal personol rhagweithiol a gwella canlyniadau'r boblogaeth.

Er bod buddsoddiad yn cael ei ddarparu i fyrddau iechyd ledled Cymru, mae'r cyllid yn cynnwys gofyniad i bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol weithio gyda'i gilydd drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei gydweddu'n strategol.

## Blaenoriaethau 2024/25

Nodwyd camau gweithredu ac amserlenni wedi'u targedu i gyflawni gwelliannau gweladwy ar gyfer y canlynol:

1. **Capasiti Nyrsio Cymunedol**

- **Manyleb Nyrsio Cymunedol:** Blaenoriaethu Nyrsio Cofrestredig cyffredinol yn y cartref, gyda chapasiti Nyrsio Ardal uwch ar benwythnosau (yn targedu 80% o lefelau dyddiau'r wythnos).
- **Mynediad at Ofal Lliniarol Arbenigol:** Ehangu mynediad 7 diwrnod, gan gynnwys partneriaethau gyda darparwyr trydydd sector a hosbisau sydd wedi'u comisiynu.

2. **Capasiti Gwasanaethau Cymunedol**

- **Proffesiynau Perthynol i Iechyd:** Cynyddu capasiti'r gweithlu i ddiwallu anghenion cynyddol cymunedau.
- **Gofal Cymunedol Uwch:** Ceisio sicrhau cynnydd o 20% mewn capasiti erbyn mis Mawrth 2025, yn unol â chyfarwyddyd y Pwyllgor Gweithredu Gofal.

3. **Cynllunio Gofal yn y Dyfodol ar gyfer pobl sydd mewn perygl mawr o fynd i'r ysbyty**

- **Cynllunio gofal ar gyfer y dyfodol:** Datblygu/rhag-gynllunio cynlluniau gofal yn y dyfodol ar gyfer y 0.5% o unigolion sy'n wynebu'r risg fwyaf, gan ddatblygu dull Unwaith i Gymru.

## Cynnydd yn 2024/25

Yn 2024/25, dyrannwyd buddsoddiad llawn gwerth £11.95 miliwn yn y rhaglen Ymhellach yn Gyflymach ym mhob rhanbarth, a nodwyd enghreifftiau o ymarfer da a chyfleoedd newydd ym mhob maes blaenoriaeth, yn enwedig ar gyfer mentrau sy'n helpu i ehangu Gofal Cymunedol Gwell.

Yn y dyfodol, bydd gwaith yn parhau i ddatblygu a chryfhau dull cyson o Gynllunio Gofal yn y Dyfodol ar gyfer ein poblogaethau risg uchel.

## Manyleb Nyrsio Cymunedol

Erbyn mis Mawrth 2025, gwelwyd gwelliant yn y cynnydd cenedlaethol tuag at gyflawni gwasanaeth Nyrsio Ardal 7 diwrnod. Cafwyd gwelliant ystyrlon yn y rhan fwyaf o ranbarthau, diolch i brosesau recriwtio wedi'u targedu, cynllunio strategol, ac adrodd data yn well. Cynyddodd lefelau gweithgarwch ar y penwythnos yn gyffredinol, diolch i'r broseso o ehangu'r gweithlu a chyflwyno mentrau hyfforddi integredig. Roedd twf o fis i fis mewn gwasanaethau penwythnos yn amlwg, gyda rhai ardaloedd yn dyblu eu gweithlu penwythnos ac yn sefydlu rolau newydd i helpu i ddarparu gwasanaethau.

Mae'r cyd-ymdrechion hyn yn adlewyrchu ymrwymiad cadarn i gryfhau gwasanaethau nyrsio cymunedol ar y penwythnos. Bydd buddsoddiad parhaus i ddatblygu'r gweithlu, addysg a chynllunio strategol yn hanfodol er mwyn cau'r bwlch mewn darpariaeth a sicrhau mynediad cyfartal at ofal ym mhob rhanbarth.

## Mynediad at Ofal Lliniarol Arbenigol

Mae mynediad ar y penwythnos at ofal lliniarol arbenigol wedi'i gryfhau ledled Cymru diolch i gyllid Ymhellach yn Gyflymach, ac mae'r rhan fwyaf o ranbarthau wedi cyflwyno rolau newydd, wedi ehangu cwmpas y ddarpariaeth, ac wedi gwella prosesau cydgysylltu. Mae gwelliannau yn cynnwys presenoldeb arbenigol cyson mewn lleoliadau acíwt, rhagor o gymorth cymunedol, a mentrau pwrpasol ar gyfer y rhai â diagnosis ac eithrio canser. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at ymyraethau cynharach, wedi gwella'r broses o reoli symptomau, wedi helpu i ryddhau cleifion yn amserol, ac wedi sicrhau gofal diwedd oes yn y cartref.

Mae adborth cleifion a gofalwyr wedi bod yn gadarnhaol ac mae parhad gofal wedi gwella. Bydd buddsoddiad parhaus i ddatblygu'r gweithlu, integreiddio gwasanaethau, a chasglu data yn hanfodol er mwyn sicrhau mynediad teg a chynnydd pellach, yn enwedig mewn rhanbarthau lle mae ehangu'r ddarpariaeth yn yr arfaeth o hyd.

## Gofal Cymunedol Gwell – Capasiti Cymunedol

Derbyniodd Gofal Cymunedol Gwell y gyfran fwyaf o fuddsoddiad Ymhellach yn Gyflymach ledled Cymru, ac roedd y rhan fwyaf o ranbarthau wedi defnyddio'r cyllid i ehangu capasiti ymateb brys, ymwreiddio modelau wardiau rhithwir, a chryfhau dewisiadau amgen cymunedol yn hytrach na derbyn cleifion i'r ysbyty. Mae gwasanaethau fel Safe@home, timau ymateb eiddilwch acíwt, a gwasanaethau offer integredig wedi hwyluso gofal amserol yn y cartref, wedi lleihau pwysau brys, ac wedi helpu i ryddhau cleifion a'u gwella. Roedd mentrau eraill yn cynnwys ehangu'r gweithlu, logisteg ymateb cyflym, ac uwchraddio digidol i wella llif cleifion a gwaith cydlynu. Cafodd prosiectau dan arweiniad y gymuned eu cefnogi drwy grantiau bach, gan hyrwyddo llesiant, lleihau ynysu, a gwella rhag-gynllunio gofal. Er bod uniondeb y data yn parhau i ddatblygu, mae dangosyddion cynnar yn dangos arbedion sylweddol o ran dyddiau gwely, lefel uchel o foddhad ymysg cleifion, a gwelliant yn llif y system. Bydd cysondeb parhaus rhwng buddsoddiad a blaenoriaethau strategol a chynllunio rhanbarthol cadarn yn allweddol i gynnal a datblygu'r cynnydd hwn

## Cynllunio Gofal yn y Dyfodol

Roedd buddsoddiad mewn Cynllunio Gofal yn y Dyfodol yn gyfyngedig yn y rhan fwyaf o ranbarthau yn ystod 2024/25. Fodd bynnag, roedd dyraniad untro o £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2024, fel rhan o Her 50 Diwrnod y Gaeaf ar gyfer Gofal Integredig, yn sbardun i gyflymu'r gwaith. Roedd sawl ardal wedi defnyddio'r cyllid hwn i wella gwaith amlddisgyblaethol, cryfhau prosesau rhag-gynllunio gofal ar gyfer carfanau risg uchel, a gwella systemau data er mwyn helpu i olrhain canlyniadau. Er bod rhai rhanbarthau wedi dewis peidio â defnyddio cyllid Ymhellach yn Gyflymach ar gyfer Cynllunio Gofal yn y Dyfodol, roedd gwasanaethau presennol fel wardiau rhithwir a modelau sy'n seiliedig ar glwstwr wedi parhau i gefnogi darpariaeth. Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn arwydd o'r gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd cynllunio gofal mewn ffordd ragweithiol er mwyn lleihau derbyniadau i'r ysbyty a chynorthwyo gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Bydd angen parhau i ddatblygu ac integreiddio Cynllunio Gofal yn y Dyfodol mewn llwybrau gofal cymunedol a gofal sylfaenol er mwyn sicrhau cysondeb a chynaliadwyedd ledled Cymru.

## Crynodeb o'r Rhaglen Ymhellach yn Gyflymach

Yn gyffredinol, roedd buddsoddiad yn y rhaglen Ymhellach yn Gyflymach drwy gydol 2024/25 wedi helpu i ddatblygu a chyflwyno rhagor o ddarpariaeth capasiti cymunedol, gyda'r nod o gefnogi mwy o bobl yn nes at y cartref. Cyflwynwyd mentrau nid yn unig i helpu i osgoi derbyniadau i'r ysbyty, ond hefyd i integreiddio a symleiddio ffyrdd presennol o weithio er mwyn sicrhau effeithlonrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

Nid oes amheuaeth bod angen rhagor o waith a ffocws, yn enwedig mewn perthynas â gwaith Cynllunio Gofal yn y Dyfodol a chyfranogiad y Trydydd Sector ledled Cymru.

Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol – Ymhellach yn Gyflymach

# Trosolwg a Chipolwg ar y Gronfa Tai â Gofal

Prif amcan y Gronfa Tai â Gofal yw cynyddu'r stoc o dai i ddiwallu anghenion pobl ag anghenion gofal a chymorth.

Mae'r Gronfa Tai â Gofal yn rhaglen ataliol, gan adeiladu ar raglen gyfalaf flaenorol y Gronfa Gofal Integredig, ac mae'n sail i ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, sef 'cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal'.

Mae'r rhaglen yn cyfrannu at yr ymrwymiad i 'ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartref â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol', ac mae hefyd yn cyfrannu at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu o dan yr un thema, sef 'dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal'.

Yn olaf, wrth greu cartrefi newydd, mae gweithgarwch rhaglen yr HCF hefyd yn cyfrannu at gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddarparu 20,000 o gartrefi carbon isel newydd i'w rhentu'n gymdeithasol yn ystod tymor y Senedd 2021-2026.

Diben HCF yw cynorthwyo pobl ag anghenion gofal a chymorth i fyw'n annibynnol yn y gymuned, a darparu lleoliadau gofal canolradd yn y gymuned er mwyn sicrhau bod pobl sydd angen gofal, cymorth ac adsefydlu yn gallu byw'n annibynnol eto neu gynnal eu hannibyniaeth bresennol.

Yn ogystal â phrosiectau strategol mwy, mae buddsoddiad cyfalaf y Gronfa Tai â Gofal hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu offer arbenigol megis technoleg gynorthwyol a chymhorthion ac addasiadau ar gyfer cartrefi pobl. Mae pob un o'r rhain yn hanfodol er mwyn lleihau derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, ac oedi wrth drosglwyddo gofal.

## Blaenoriaethau ar gyfer Buddsoddi

Mae cyllideb rhaglen tair blynedd y Gronfa Tai â Gofal wedi bod ar waith ers 2022-23, gyda £60.5m ar gael bob blwyddyn. Disgwylir blwyddyn arall o gyllid dangosol ar gyfer 2026-27 hefyd. Mae'r grwpiau â blaenoriaeth yn cynnwys:

- pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia
- plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- pobl ag anableddau dysgu, cyflyrau niwroamrywiol a chyflyrau niwroddatblygiadol
- gofalwyr di-dâl
- pobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol.

## Mae'r HCF yn darparu tri math o lety:

- **Amcan 1:**

Tai deiliadaeth hirdymor â gofal, megis gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn a byw â chymorth ar gyfer oedolion ag anabledd dysgu. Gellir ariannu'r cynlluniau hyn yn gyfan gwbl drwy'r Gronfa Tai â Gofal neu drwy gyfuniad o gyllid y Gronfa Tai â Gofal a Grant Tai Cymdeithasol.

- **Amcan 2:**

Lleoliadau tymor byr a thymor canolig, megis cam-i-fyny / cam-i-lawr, lleoliadau adsefydlu yn y gymuned, llety trosiannol ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal, a gofal preswyl ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

- **Amcan 3:**

Mân brosiectau sy'n bodloni nodau y HCF. Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n gyfrifol am benderfynu sut i ddyrannu'r cyllid dewisol ar gyfer prosiectau bach yn eu rhanbarth.

## Cynnydd Hyd yn Hyn

Mae Tablau 1 a 2 yn darparu trosolwg o wariant yn ôl grŵp cleient a math o brosiect ar gyfer rhaglen y HCF dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Maen nhw'n dangos cynnydd mewn gwariant wrth i'r rhaglen ymsefydlu.

Mae'r HCF wedi darparu lefel o gyllid ar gyfer rhaglenni ar lefel ranbarthol, ac mae sawl rhanbarth yn manteisio ar y cyllid hwn. Mae hyn wedi helpu i gyflwyno prosiectau a bydd yn parhau i wneud hynny yn ystod 2025/26.

Tabl 1: Grŵp Blaenoriaeth

| | 2022/23 | | 2023/24 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiectau** | **£** | **Prosiectau** | **£** | **Prosiectau** | **£** |
| Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth | 21 | £7,272,879 | 35 | £13,504,896 | 34 | £18,344,357 |
| Pobl hŷn, gan gynnwys pobl â dementia | 5 | £5,469,028 | 6 | £9,243,013 | 8 | £13,003,799 |
| Pobl ag anghenion iechyd emosiynol a llesiant meddyliol | 3 | £1,548,756 | 4 | £2,074,746 | 2 | £671,013 |
| Pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwrowahanol a niwroddatblygiadol | 15 | £7,683,054 | 24 | £7,007,678 | 25 | £8,033,325 |
| Gofalwyr di-dâl | 0 | 0 | 1 | £48,000 | 1 | £168,000 |
| Amcan 3 | - | £8,724,980 | - | £9,267,060 | - | £11,246,925 |
| **Cyfanswm** | **44** | **£30,698,697** | **70** | **£41,145,393** | **70** | **£51,467,419** |

Tabl 2: Math o Brosiect

| | 2022/23 | | 2023/24 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiectau** | **£** | **Prosiectau** | **£** | **Prosiectau** | **£** |
| Gofal ychwanegol | 2 | £5,090,208 | 4 | £8,234,627 | 7 | £12,739,836 |
| Cartref Plant | 4 | £1,443,030 | 3 | £1,284,247 | 3 | £2,350,679 |
| Gofal Preswyl i Blant | 17 | £7,011,478 | 27 | £10,241,543 | 23 | £12,692,997 |
| Gofal canolraddol | 2 | £549,000 | 2 | £152,000 | 1 | £975,000 |
| Arall | 4 | £446,618 | 3 | £96,651 | 2 | £815,905 |
| Llety Trosiannol | 1 | £632,256 | - | - | - | - |
| Byw'n Annibynnol | - | - | 1 | £208,184 | - | - |
| Tai Gwarchod | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | £334,158 |
| Byw â Chymorth | 14 | £6,612,114 | 31 | £11,661,081 | 33 | £10,421,893 |
| Amcan 3 | - | £8,913,993 | - | £8,997,206 | - | £10,895,520 |
| Adnodd y rhaglen | - | - | - | £269,854 | - | £234,189 |
| **Cyfanswm** | **44** | **£30,698,691** | **70** | **£41,145,393** | **70** | **£51,467,419** |

## Gweithio cydgysylltiedig

Ochr yn ochr â'r HCF, mae'r rhaglen IRCF yn helpu i ddatblygu hybiau cymunedol ac ailgydbwyso'r sector gofal preswyl. Mae'r ddwy gronfa yn ategu ei gilydd ac yn cael eu cefnogi gan gyllid refeniw'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) er mwyn cynorthwyo modelau newydd o ofal ataliol.

Gyda'i gilydd, mae'r ddwy gronfa gyfalaf a'r gronfa refeniw yn cynrychioli cynnydd sylweddol mewn cyllid i gyflymu'r symudiad tuag at fyw'n annibynnol a gofal yn nes at y cartref, fel y nodir yn *Cymru Iachach*.

## Edrych tua'r dyfodol

Ers ei sefydlu, mae'r ymrwymiadau blynyddol sydd wedi cael eu gwneud drwy raglen yr HCF wedi cynyddu, a 2024/25 yw'r flwyddyn fwyaf llwyddiannus hyd yma.

Bydd tîm yr HCF yn parhau i ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid i hwyluso'r gwaith o ddarparu atebion ar sail llety i ddiwallu anghenion poblogaeth Cymru.

Bydd y cyllid yn parhau i gael ei fuddsoddi mewn tai a ddyluniwyd i sicrhau y gall pobl ag anghenion gofal a chymorth barhau i fyw'n annibynnol mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion, gan ganiatáu iddynt gynnal eu hannibyniaeth.

# ASTUDIAETH ACHOS

Rhanbarth: **Powys**

Prosiect: **Neuadd Maldwyn, y Trallwng**

**Mae Neuadd Maldwyn yn gynllun gofal ychwanegol newydd sy'n darparu cartrefi clyd a diogel o ansawdd uchel ar gyfer pobl oedrannus yn ardal y Trallwng. Datblygwyd y cynllun gan Gymdeithas Tai Clwyd Alyn mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys**

Dechreuodd y preswylwyr cyntaf symud i'w cartrefi ar 25 Ebrill. Mae'r fflatiau newydd yn cynnig amgylchedd cefnogol i breswylwyr, gyda'r cyfle i fyw ochr yn ochr â phobl o'r un anian a chymdeithasu mewn lleoliad cymunedol. Yn ogystal â'r 66 o fflatiau modern un a dwy ystafell wely, mae'r cynllun yn cynnwys bwyty mawr, ystafell aml-weithgaredd, gerddi wedi'u tirlunio, lolfa gymunedol, golchdy, lle i gadw bygis, ystafell ymolchi â chymorth ar wahân, ac amrywiaeth o fannau cymunedol eraill ar gyfer y preswylwyr.

Derbyniodd Cymdeithas Tai Clwyd Alyn oddeutu £3m drwy raglen gyfalaf ICF (rhagflaenydd y HCF) i ddarparu cynllun gofal ychwanegol 60 gwely yng nghanol y Trallwng. Ariannwyd y prosiect hwn ar y cyd â Grant Tai Cymdeithasol.

Mae Neuadd Maldwyn yn adeilad rhestredig gradd II a arferai fod yn swyddfeydd/siambr y Cyngor, ac mae wedi'i ymestyn i ddarparu 60 o welyau sy'n cynnwys llawer o'r nodweddion gwreiddiol.






# ASTUDIAETH ACHOS

Rhanbarth: **Gorllewin Cymru**

Prosiect: **Cynllun Byw â Chymorth Fferm Gofal Clynfyw**

**Mae Fferm Gofal Clynfyw yng ngogledd Sir Benfro yn darparu llety â chymorth i oedolion ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroddatblygiadol.**

Ym mis Mawrth 2025, defnyddiwyd £270,000 o gyllid HCF Llywodraeth Cymru i brynu pedwar bwthyn, gan sicrhau deg tenantiaeth hirdymor a dwy uned ar gyfer staff. Mae'r cynllun wedi'i leoli ar fferm organig 395 erw, ac mae'n cynnig gwasanaethau dydd, addysg, a chyfleoedd gwaith, gan hyrwyddo annibyniaeth a chynhwysiant.

Llwyddodd y pryniant i ddiogelu gwasanaeth hanfodol mewn ardal lle nad oes llawer o ddarpariaeth, gan sicrhau bod trigolion yn gallu aros yn agos i'w cymunedau. Mae'r cynllun yn cefnogi anghenion tai rhanbarthol ac yn cynnal lleoliadau sefydlog yn unol â dymuniadau'r preswylwyr presennol, gan helpu i sicrhau dilyniant mewn gofal a chysylltiad cymunedol.





# ASTUDIAETH ACHOS

Rhanbarth: **Gwent**

Prosiect: **Tŷ Ash, Casnewydd**

**Yn Nhŷ Ash, bydd Gweithredu dros Blant (AFC) yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 8 a 18 oed ag anghenion cymhleth ac ymddygiadau heriol, sy'n byw o dan ofal Awdurdodau Lleol ac sy'n debygol o fod wedi profi tor-lleoliad dro ar ôl tro. Bydd y cynllun yn darparu pedwar lle gwely i blant a phobl ifanc.**

AFC yw perchnogion yr eiddo, ar ôl iddo gael ei ddefnyddio fel ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gadawodd y tenantiaid blaenorol yr adeilad ym mis Hydref 2022. Mae'r Gronfa Ta â Gofal wedi buddsoddi ychydig dros £1m i adnewyddu'r eiddo yn gartref i blant.

Bydd hwn yn brosiect i Went gyfan a fydd yn cynnig lleoliadau hirdymor i blant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ledled y rhanbarth.










# Trosolwg a Chipolwg ar y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso

Sefydlwyd y Rhaglen Hybiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig (IHSCH) i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i ***'fuddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled Cymru'*** a ***'Datblygu mwy na 50 o hybiau cymunedol lleol i gydleoli gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen a gwasanaethau eraill'***.

Mae'r rhaglen IHSCH yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys datblygu a gweithredu rhaglen cyllid cyfalaf a ddarperir drwy'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (IRCF) a sefydlwyd i gefnogi ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu yn uniongyrchol, ac mae gan y rhaglen dri maes blaenoriaeth:

1. cefnogi dull cydlynol o gynllunio'r gwaith o gyd-leoli ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o fewn y gymuned ledled Cymru
2. cefnogi'r gwaith o ailgydbwyso darpariaeth gofal preswyl i oedolion drwy gynyddu darpariaeth o du mewn i'r sector nid-er-elw
3. cefnogi dileu elw o ddarpariaeth gofal preswyl i blant (cymhellion i gefnogi newid model busnes mewn gofal preswyl plant tuag at fodel nid-er-elw).

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn arwain dull cydweithredol o gynllunio buddsoddiad cyfalaf iechyd, gofal cymdeithasol a thai i alluogi darparu gwasanaethau di-dor yn agosach at y cartref; a rheoli'r defnydd o gronfa IRCF ledled Cymru.

Mae pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd sydd hefyd yn nodi rhestr o brosiectau iechyd a gofal cymdeithasol â blaenoriaeth sy'n rhagweld yr angen am fuddsoddiad yr IRCF yn ystod y tymor byr a'r tymor canolig.

Mae cyllideb gyfalaf gwerth hyd at £70m wedi'i chlustnodi yn 2025/26 a 2026/27.

Ochr yn ochr â'r cyllid cyfalaf hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid refeniw penodol i helpu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflwyno eu rhaglenni:

- £200,000 – Capasiti adnoddau a ddylai gynnwys rheolwyr prosiectau cyfalaf. Eu prif rôl fydd cyflwyno'r cynllun cyfalaf strategol integredig rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ond mae'n bosibl y byddant yn darparu cymorth strategol i sefydliadau partner wrth ddatblygu prosiectau.
- £250,000 – Cydlynu a hwyluso datblygiad gwasanaethau integredig a di-dor drwy hybiau iechyd a gofal cymdeithasol.

## Cynnydd

Ar adeg cyhoeddi, mae cyllid wedi'i ddarparu ar gyfer 38 o gynlluniau ledled Cymru hyd at gyfanswm o £114.4 miliwn drwy'r IRCF.

O ran y 3 maes blaenoriaeth, bydd 30 o'r cynlluniau yn darparu hybiau integredig, mae 6 chynllun yn cynorthwyo gwaith i ailgydbwyso darpariaeth gofal preswyl i oedolion, ac mae 2 gynllun yn helpu i ddileu elw o'r sector plant sy'n derbyn gofal (mae'r HCF yn ariannu cynigion ar gyfer Dileu hefyd). Mae pob rhanbarth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi sicrhau cyllid ar gyfer cynlluniau yn eu rhanbarth ac mae 16 o'r 22 Awdurdod wedi cael cymeradwyaeth ar gyfer prosiectau'r IRCF hyd yn hyn.

Rydym yn parhau i weithio gyda Thimau Cyfalaf Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer y cyfnod cyllido hyd at fis Ebrill 2027 a thu hwnt. Cyhoeddwyd canllawiau newydd ym mis Mai 2025 yn unol â'r rhaglen ariannu.

Y Gronfa Integreiddio ac Ailgydbwyso Iechyd a Gofal Cymdeithasol: canllawiau 2025 i 2027 | LLYW. CYMRU

Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi derbyn ystod eang o geisiadau gan fuddsoddiadau cymhleth mawr sydd angen achosion busnes amlinellol a llawn, ac ar gyfer cynlluniau â gwerth is (adeiladau newydd ac adeiladau wedi'u hadnewyddu) yn seiliedig ar achos cyfiawnhau busnes.

Mae natur integredig y cynlluniau a gymeradwywyd yn amlygu cyrhaeddiad y cynlluniau o ran iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant.

Mae'r broses IRCF yn seiliedig ar y model busnes pum achos ac mae'r prosiectau a gyflwynir yn mynd drwy broses ymgeisio a chymeradwyo aml-gam. Mae nifer y camau yn cael ei bennu gan raddfa a risgiau'r prosiect. Mae cyllid y Gronfa yn cwmpasu cymysgedd o gynigion, yn cynnwys adnewyddiadau ar raddfa fach, sicrhau bod adeiladau'n gallu cael eu defnyddio eto ac adeiladu hybiau iechyd a gofal cymdeithasol newydd ar raddfa fwy.

Mae'r holl gynlluniau yn seiliedig ar fod yn ddatblygiadau amlasiantaeth gyda sefydliad arweiniol ac maent ar wahanol gamau datblygu. O ran y gwaith adeiladu sylweddol hyd yn hyn mae 5 o gynlluniau hwb IRCF eisoes wedi'u cwblhau a rhagwelir y bydd 7 arall yn cael eu cwblhau eleni. Mae'r cynlluniau sydd wedi'u cwblhau wedi'u lleoli ym mhob rhan o Gymru ac maen nhw'n amrywio o ran graddfa a math, o hybiau Math B i hybiau Math E.

## Nodi ffactorau llwyddiant allweddol a dangos effaith

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar yr IRCF, a sefydlwyd yn 2022, o ran canlyniadau a llwyddiannau'r rhaglen. Fodd bynnag, mae wedi gwneud cynnydd sylweddol drwy dull Byrddau Partneriaeth rhanbarthol o alluogi partneriaid ar draws sectorau i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu cynlluniau cyfalaf strategol iechyd a gofal cymdeithasol integredig 10 mlynedd. Mae'r cynlluniau hyn wedi dangos y buddsoddiad sydd ei angen i wireddu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu dros y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor, a byddant yn parhau i wneud hynny.

Fel y nodwyd yng nghanllawiau diwygiedig 2025/27, mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gydweddu eu cofrestr buddiannau â'r Fframwaith Canlyniadau yr RIF a chanlyniadau lefel uchel y Model Gofal sy'n ymwneud â gofal cymunedol ac atebion sy'n seiliedig ar lety, er enghraifft, ac â chanlyniadau'r Modelau Gofal eraill sy'n cynnwys rhyngwyneb a pherthnasedd i ddarparu naratif y newid arfaethedig ar gyfer y grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth.

O ran canlyniadau lefel uchel model gofal IRCF, mae sefydlu hybiau ledled Cymru yn cyd-fynd â'r canlynol:

- Mae anghenion pobl yn cael eu gwella drwy gael mynediad at atebion cymunedol cydgysylltiedig drwy'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan hwb.
- Atebion lleol sy'n ymwneud ag atal ac ymyrraeth gynnar yn cynorthwyo pobl i osgoi ymyriadau uwchgyfeirio ac ymyriadau argyfwng o'r ystod o ddarpariaeth sydd wedi'i lleoli mewn cymunedau y gellir cael gafael arnynt drwy ddrws ffrynt hybiau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant

Mae Fframwaith Buddion (Gwerth Cymdeithasol) IRCF yn cael ei ddatblygu i sicrhau'r manteision a nodwyd ar gyfer y Rhaglen o ran cyflawni ei hamcan o helpu pobl i aros yn actif ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac i fyw bywydau hirach, iachach a hapusach, gan leihau'r angen am ofal ysbyty; darparu ar lefel leol Fodel Gweithredu system gyfan, addas i'r dyfodol, ar gyfer dull mwy hygyrch ac integredig o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a darparu gwasanaethau yn agosach at y cartref, wedi'u cynllunio o amgylch anghenion pobl yn yr ardal.

## Gweithio tuag at Garbon Sero Net Oes Gyfan

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030 a gostyngiad o 100% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru erbyn 2050. Mabwysiadodd y GIG yng Nghymru Safon Sero Net GIG Lloegr ar 1 Hydref 2023.

Mae'r IRCF wedi mabwysiadu'r Safon Sero Net ar gyfer pob prosiect.

Mae rhaglen yr IRCF yn gyfle unigryw, a hynny yng nghanol ein cymunedau, i gymryd camau breision tuag at seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol carbon sero net oes gyfan yng Nghymru.

# ASTUDIAETH ACHOS

Rhanbarth: **Gogledd Cymru**

Prosiect: **Coed y Ddraig**

**Hwb gwasanaethau integredig arloesol sy'n cefnogi oedolion ag anableddau dysgu, awtistiaeth ac anghenion cymorth iechyd meddwl yw Coed y Ddraig.**

Mae Coed y Ddraig wedi'i leoli mewn coetir gwledig, o fewn taith gerdded hwylus i ganol tref yr Wyddgrug, ac mae'n darparu hwb pwrpasol sy'n cynnig gwasanaethau dydd a chyfleoedd gwaith i oedolion ag anableddau dysgu dwys neu gymhleth drwy weithgareddau garddwriaethol. Bydd yr hwb yn cael ei reoli gan Hft, gyda darpariaeth gwasanaethau integredig gan dimau gwasanaethau cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Bydd yr hwb newydd hwn yn rhoi cyfle i oedolion o oedran gweithio sydd ag anableddau dysgu ddatblygu sgiliau bywyd, magu hyder, cynyddu eu hannibyniaeth a chymryd rhan mewn hyfforddiant er mwyn eu helpu i gael gwaith.

Y cyfleuster hwn fydd yr adeilad sero net cyntaf yn Sir y Fflint, a bydd yr holl allyriadau carbon sy'n deillio o ddefnyddio'r adeilad yn cael eu gwrthbwyso gan gyfres o fesurau lleihau carbon arloesol.

Mae'r prosiect gwerth £4.8 miliwn wedi derbyn £2.9 miliwn o gymorth ariannol gan Gronfa IRCF Llywodraeth Cymru. Mae gweddill yr arian wedi dod o raglen gyfalaf Cyngor Sir y Fflint.

Bwriedir agor y ganolfan yn Hydref 2025.



# ASTUDIAETH ACHOS

Rhanbarth: **Gogledd Cymru**

Prosiect: **Canolfan Deuluoedd Llanrwst**

**Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi caffael ac adnewyddu Canolfan Deuluoedd Llanrwst er mwyn ymestyn y gwasanaethau a gynigir i deuluoedd a chynyddu cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth.**

Roedd Prosiect Canolfan Deuluoedd Llanrwst yn cynnwys prynu ac adnewyddu'r adeilad sydd wedi bod yn gartref i'r ganolfan deuluoedd ers 23 o flynyddoedd. Yr Eglwys yng Nghymru oedd perchnogion yr eiddo, ac roedd y Ganolfan Deuluoedd yn lesio'r adeilad. Yn 2023 cyhoeddodd yr Eglwys yng Nghymru nad oedd yr eiddo yn hyfyw iddi bellach a'i bod yn bwriadu ei werthu. Trwy brynu'r adeilad, roedd modd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ddiogelu a pharhau i ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn, tra bod y gwaith adnewyddu yn gyfle i ddatblygu a gwella gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar.

Prynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr adeilad ym mis Gorffennaf 2024, ac ym mis Hydref 2024 dechreuodd rhaglen o waith adnewyddu. Roedd hyn yn cynnwys ailffurfweddu cynllun yr adeilad i wneud gwell defnydd o'r lle, gwella hygyrchedd, a gosod ffenestri newydd i wella effeithlonrwydd ynni.

Cafodd gwasanaethau eu hadleoli yn ystod y gwaith adnewyddu 34 wythnos, ac ailagorodd y ganolfan ar 9 Mehefin 2025.

Bellach bydd yn bosibl darparu mwy o wasanaethau ar yr un pryd, gan arbed teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd gwledig rhag gorfod teithio pellteroedd 'nôl a blaen i'r ganolfan. Mae'r ganolfan yn cynnig amrywiaeth o gymorth, gan gynnwys clybiau babanod wythnosol a ddarperir gydag ymwelwyr iechyd, grwpiau gofalwyr ifanc, a chymorth cam-drin domestig i bobl o bob oedran.

Mae'r prosiect wedi derbyn buddsoddiad gwerth £600,000 drwy Gronfa IRCF Llywodraeth Cymru.



# ASTUDIAETH ACHOS

Rhanbarth: **Gorllewin Cymru**

Prosiect: **Hwb Penfro – Cei'r De**

**Ar ôl ei gwblhau, bydd Hwb Penfro – Cei'r De yn hwb gofal cymdeithasol, iechyd a chymunedol modern a hygyrch ym Mhenfro.**

Mae'r Hwb yn cefnogi nod y rhanbarth i ddatblygu cymunedau gweithredol, dyfeisgar, cysylltiedig, cynaliadwy a chreadigol.

Dyfarnwyd £6.5 miliwn i'r Hwb o'r Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, gydag arian cyfatebol ychwanegol gan Gyngor Sir Penfro a'r Gronfa Ffyniant Bro gan ddod â chyfanswm gwerth y prosiect i £12,075,811.


Bydd yr Hwb yn cyd-fynd â'r cynllun integreiddio rhanbarthol a ddatblygwyd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan gyd-leoli ystod o wasanaethau gan gynnwys clinigau iechyd, asesiadau gofal cymdeithasol a gwasanaethau atal cymunedol.

Bydd mannau hyblyg y gellir eu harchebu yn darparu gwasanaethau ad hoc, tra bydd ardaloedd pwrpasol ar gyfer gofal dementia a byw'n annibynnol yn cefnogi darpariaeth timau iechyd galwedigaethol, ffisiotherapi, a therapi iaith a lleferydd.

Dechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Awst 2024 a disgwylir iddo gael ei gwblhau ddechrau 2026.










# Y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol: Sbarduno Trawsnewid ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Wrth i ni gamu i bedwaredd flwyddyn y **Gronfa Integreiddio Rhanbarthol gwerth £146.8 miliwn y flwyddyn**, , rydym yn adeiladu ar sylfaen gadarn a osodwyd ers ei lansio yn 2022.

Mae'r rhaglen bum mlynedd hon (2022–2027) yn un o gonglfeini ein hymrwymiad i wireddu'r weledigaeth a amlinellir yn *Cymru Iachach* ar gyfer system iechyd a gofal wirioneddol ddi-dor i bawb.

Cafodd yr RIF ei llunio gan wersi a ddysgwyd o'r Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Trawsnewid, a mewnwelediadau gan Archwilio Cymru.

Mae'r gronfa wedi'i chynllunio i fod yn feiddgar, yn ymatebol ac i ganolbwyntio ar y dyfodol, gan gynorthwyo i ddatblygu System Gofal Cymunedol Integredig ledled Cymru.

Rydym bellach wedi cyrraedd adeg dyngedfennol yn ein cenhadaeth i symud o ddull gweithredu arloesol lleol i gael effaith genedlaethol. Yr her sy'n ein hwynebu yw ehangu modelau rhanbarthol llwyddiannus a'u hymgorffori'n genedlaethol, gan sicrhau bod pob dinesydd, lle bynnag y mae'n byw, yn elwa ar ofal integredig cyson, o ansawdd uchel.

## Gwerthoedd Craidd a Blaenoriaethau Strategol RIF

- Mae gwaith atal ac ymyrraeth gynnar yn ganolog i'r gofal.
- Modelau cenedlaethol o ofal integredig sy'n gynaliadwy ac y gellir eu hehangu.
- Cymunedau Ymarfer i rannu'r hyn a ddysgir a meithrin arloesedd.
- Buddsoddiad hirdymor i brif ffrydio dulliau gweithredu newydd.
- Trefniadau cyllido ar y cyd i gynorthwyo cydweithredu.
- Seilwaith cynllunio a phartneriaeth rhanbarthol cadarn.

## Sut Beth yw Llwyddiant: Chwe Model Gofal Cenedlaethol

Erbyn 2027, bydd chwe model gofal integredig yn cael eu sefydlu a'u hymgorffori'n llawn ledled Cymru, gan drawsnewid sut mae gwasanaethau yn cael eu darparu::

1. Gofal yn y gymuned – dulliau atal a chydgysylltu.
2. Gofal cymhleth yn agosach at y cartref – lleihau dibyniaeth ar leoliadau ysbyty.
3. Iechyd a llesiant emosiynol – cymorth rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
4. Cymorth i deuluoedd a gofal therapiwtig – cadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel.
5. Gartref o'r ysbyty – trosglwyddo ac adfer yn effeithiol.
6. Atebion sy'n seiliedig ar lety – cymorth wedi'i deilwra ar gyfer byw'n annibynnol.

## Olrhain Cynnydd: Tystiolaeth, Effaith a Dysgu

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd sylweddol ym mhob un o'r chwe model, ac mae llawer o hanesion llwyddiant wedi deillio o fentrau rhanbarthol. Mae cynllun unigryw'r RIF wedi hwyluso cydweithredu traws-sector a dysgu ar y cyd, gan ein helpu i nodi ac ehangu'r hyn sy'n gweithio.

Cynhaliwyd cynhadledd ddysgu genedlaethol ym mis Medi 2024 gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn rhannu arferion da. Cyflwynodd pob un o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fodel arferion da er mwyn helpu i fabwysiadu ac uwchraddio rhaglenni llwyddiannus yn ehangach.

## Gwerthusiad Cenedlaethol: Archwilio Effaith yn Fanylach

Comisiynwyd y gwerthusiad cenedlaethol annibynnol yn 2022, ac mae'n cael ei arwain gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ym Mhrifysgol De Cymru, mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe ac Old Bell 3 Research, gyda chymorth economegwyr iechyd Cymru.

Gan ddefnyddio methodoleg arloesol, mae'r gwerthusiad yn archwilio sut mae egwyddorion RIF yn cael eu deall a'u cymhwyso ac yn bwysicaf oll, sut maen nhw'n gwella bywydau pobl.

- Mae adroddiadau Cam 1 yn cael eu cyhoeddi a byddant yn llywio datblygiad parhaus.
- Bydd Cam 2 yn dadansoddi 20 mesur perfformiad craidd, yn ymchwilio i economeg iechyd, ac yn casglu mewnwelediadau ansoddol gan staff a defnyddwyr gwasanaethau er mwyn sicrhau dealltwriaeth gyfoethog a chynhwysol o effaith.

# Adolygiad o'r Flwyddyn

## Cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd i ranbarthau yn ôl modelau gofal

**Gofal yn y Gymuned: Atal a chydgysylltu Cymunedol**

Dyraniad cyllid

£30.7 miliwn

Canran y dyraniad cyllid

26%

**Gofal yn y Gymuned: Gofal cymhleth yn nes at y cartref**

Dyraniad cyllid

£20.6 miliwn

Canran y dyraniad cyllid

17%

**Hybu iechyd a llesiant emosiynol da**

Dyraniad cyllid

£8.3 miliwn

Canran y dyraniad cyllid

7%

**Cynorthwyo teuluoedd a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal**

Dyraniad cyllid

£22.7 miliwn

Canran y dyraniad cyllid

19%

**Gartref o'r ysbyty**

Dyraniad cyllid

£35.6 miliwn

Canran y dyraniad cyllid

30%

**Atebion seiliedig ar lety**

Dyraniad cyllid

£2.1 miliwn

Canran y dyraniad cyllid

1%

## Cyfanswm y cyllid wedi'i neilltuo a ddyrannwyd i ranbarthau

Dyrannwyd cyllid wedi'i glustnodi i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gyflawni ymrwymiadau gweinidogol cenedlaethol.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig
**£3.2m**

Gofalwyr di-dâl
**£1m**

Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia
**£10.2m**

Cynllun seibiant byr ar gyfer gofalwyr di-dâl
**£1.2m**

Gwasanaeth Asesu'r Cof
**£2.1m**

| Cyfanswm y buddsoddiad i **Awdurdodau Lleol** | Cyfanswm y buddsoddiad i **Fyrddau Iechyd** | Cyfanswm y buddsoddiad i **Werth Cymdeithasol** |
|---|---|---|
| **£77m** | **£43m** | **£24m** |

## Dull Gweithredu Graddol ac Arian Cyfatebol

Un o egwyddorion cynllunio gwreiddiol y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (RIF) oedd hyrwyddo cysondeb o ran adnoddau craidd ymysg sefydliadau partner, gyda'r nod o leihau cyfraniad yr RIF yn raddol dros amser. Nod y dull gweithredu graddol hwn oedd creu model cyllido cytbwys 50:50 i gynorthwyo cynaliadwyedd hirdymor prosiectau a gwasanaethau llwyddiannus.

Mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i ddangos ymrwymiad cadarn i'r egwyddor hon ac yn cydnabod pwysigrwydd gweithio ar y cyd i ddenu adnoddau lleol sy'n datblygu llwyddiant yr RIF er mwyn helpu mwy o bobl i fyw'n dda ac aros yn iach gartref.

Cyfanswm y cyllid cyfatebol a sicrhawyd gan bartneriaid yng Nghymru 2024/25
**£88.2m**

Ers sefydlu'r RIF yn wreiddiol, mae'r sefyllfa economaidd a chymhlethdod anghenion iechyd a gofal cymdeithasol wedi esblygu'n sylweddol, yn enwedig yn sgil pandemig COVID-19. Er mwyn cydnabod yr heriau hyn, ac ar ôl ymgysylltu â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid cyflenwi, ym mis Ionawr 2024 cytunodd Gweinidogion i ddileu'r gofyniad am ddull gweithredu graddol gan y gronfa, er mwyn osgoi dadsefydlogi'r buddsoddiad hyd yma.

Yn bwysig, mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi parhau i sicrhau cyllid cyfatebol ar gyfer y tri Model Cenedlaethol o Ofal Integredig – Cydgysylltu Cymunedol, Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref, a Gartref o'r Ysbyty – sy'n ganolog i ddatblygu capasiti cymunedol. Mae'r ymdrechion hyn yn dangos gwerth parhaol gweithio mewn partneriaeth a'r ymrwymiad cyffredin i ddarparu gofal integredig sy'n diwallu anghenion pobl yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

# Deall y Data: Faint wnaethom ni a pha wahaniaeth a wnaeth i bobl

Datblygwyd dull adrodd pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gyda fframwaith canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer yr RIF ar sail yr egwyddorion canlynol:

1. **Dull Datblygiadol Bwriadol** Cynlluniwyd fframwaith adrodd yr RIF i esblygu dros amser. Yn y blynyddoedd cynnar, mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu capasiti ac ymwreiddio arferion cyson ar draws rhanbarthau. Mae'r data cyfredol yn adlewyrchu cyfnod naturiol a disgwyliedig o aeddfedu.
2. **Tystiolaeth Ansoddol yn Ychwanegu Manylder** Nid yw'r dull adrodd yn dibynnu ar ddata meintiol yn unig. Mae'r casgliad cadarn o dystiolaeth ansoddol – gan gynnwys adborth, astudiaethau achos, a hanesion newid – yn darparu cyd-destun a mewnwelediad cyfoethog ochr yn ochr â'r mesurau gwahaniaeth ar gyfer unigolion a chymunedau. Mae hyn yn lliniaru unrhyw fylchau dros dro mewn cysondeb rhifiadol.
3. **Mesurau Craidd yn Darparu Sylfaen Gadarn** Mae'r set graidd o 20 mesur perfformiad yn sicrhau fframwaith cenedlaethol cyffredin. Mae rhanbarthau yn rhannu'r un pwyslais, ac mae data cyfredol yn cyfrannu at wybodaeth genedlaethol ystyrlon am gynnydd.
4. **Data Dangosol yn Dangos Gwerth** Mae'r data sydd ar gael ar ddiwedd blwyddyn tri yn cynnig enghreifftiau clir o effaith a chwmpas gweithgarwch yr RIF. Mae hyn yn profi potensial ac effeithiolrwydd y system, gan sicrhau cysondeb y data.
5. **Gwelliant parhaus wedi'i ymgorffori** Mae mecanwaith adrodd yr RIF yn iteraidd o fwriad. Mae gwersi a ddysgwyd o'r gwaith cyflawni cynnar yn arwain at welliannau drwy'r gronfa gyfan.


Mae'r data a gyflwynir yn ddull gwerthfawr o ddangos perfformiad a chynnydd ar draws y rhanbarthau. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn parhau i gryfhau'r broses o ddilysu ystadegau a chymharu data, gan helpu i ddatblygu sylfaen dystiolaeth fwy cadarn a chyson gydol cyfnod y Gronfa.

Mae'r data yn cefnogi dysgu, deialog a gwelliant parhaus, ac mae'n cael ei ystyried yn rhan o set ehangach o dystiolaeth a gynhyrchir gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, megis astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthusiadau allanol.

## Mesur faint a wnaethom

| Nifer yr unigolion newydd sy'n cael mynediad i'r prosiect am y tro cyntaf | Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd | Nifer yr unigolion sy'n cael cael mynediad i'r prosiect | Nifer y cael mynediad i'r (cyfrif nifer y cysylltiadauam bob unigolyn) |
|---|---|---|---|
| 249,455 | 217,579 | 747,953 | 1,620,654 |

Mae'r prosiectau a'r modelau gofal a ddatblygwyd gan yr RIF yn amrywio ar draws y sbectrwm o ymyrraeth, o gyffredinol i arbenigol. Mae'r diagram isod yn dangos lledaeniad y gweithgarwch ar draws y pedair lefel o ymyrraeth drwy ddangos faint o bobl a gefnogwyd ar bob lefel.




**Nifer yr unigolion sy'n cael cymorth**

### Model Cymru gyfan o ddata lefel gofal - Gwahaniaeth a wnaed (o'r bobl a arolygwyd)

| Nifer yr unigolion sy'n teimlo'n llai ynysig o ganlyniad i gymorth prosiect | Nifer yr unigolion sy'n cynnal neu'n gwella eu hiechyd a'u llesiant emosiynol | Nifer yr unigolion sy'n teimlo eu bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt |
|---|---|---|
| 213,091 | 231,547 | 175,953 |

| Nifer yr unigolion y mae eu hannibyniaeth wedi gwella neu aros yr un fath gyda chymorth prosiect | Nifer yr unigolion sy'n teimlo'n fwy hyderus o ran cael mynediad at wasanaethau yn dilyn cymorth prosiect | Nifer yr unigolion a gafodd gymorth sydd wedi atal lefel eu hangen rhag dwysáu |
|---|---|---|
| 207,931 | 161,797 | 181,922 |

# Gofal Cymunedol
# Model Gofal Atal a Chydgysylltu Cymunedol 2024/2025

**Caerdydd a'r Fro**

Dyraniad cyllid

£3,149,542

**Cwm Taf Morgannwg**

Dyraniad cyllid

£10,701,520

**Gwent**

Dyraniad cyllid

£4,384,767

**Gogledd Cymru**

Dyraniad cyllid

£4,449,707

**Powys**

Dyraniad cyllid

£1,425,080

**Gorllewin Morgannwg**

Dyraniad cyllid

£3,241,220

**Gorllewin Cymru**

Dyraniad cyllid

£3,421,232

**Nifer yr unigolion sy'n cael gafael ar gymorth**

385,501

# Gofal yn y Gymuned
# Gofal Cymhleth yn Nes at y Cartref
# 2024/2025

**Caerdydd a'r Fro**

Dyraniad cyllid

£3,639,424

**Cwm Taf Morgannwg**

Dyraniad cyllid

£1,701,157

**Gwent**

Dyraniad cyllid

£7,825,049

**Gogledd Cymru**

Dyraniad cyllid

£6,151,292

**Powys**

Dyraniad cyllid

£78,585

**Gorllewin Morgannwg**

Dyraniad cyllid

£79,325

**Gorllewin Cymru**

Dyraniad cyllid

£1,130,327

**Nifer yr unigolion sy'n cael gafael ar gymorth**

57,091

# Model Gofal Hybu Iechyd a Llesiant Emosiynol Da 2024/2025

| Ardal | Dyraniad cyllid |
|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | £539,085 |
| Cwm Taf Morgannwg | £1,138,355 |
| Gwent | £1,738,202 |
| Gogledd Cymru | £1,321,921 |
| Powys | £1,309,425 |
| Gorllewin Morgannwg | £864,597 |
| Gorllewin Cymru | £1,465,394 |

**Nifer yr unigolion sy'n cael gafael ar gymorth**

90,239

# Model Gofal Cynorthwyo Teuluoedd a Chymorth Therapiwtig i Blant â Phrofiad o fod mewn Gofal 2024/2025

| Rhanbarth | Dyraniad cyllid |
| --- | --- |
| Caerdydd a'r Fro | £2,114,884 |
| Cwm Taf Morgannwg | £945,271 |
| Gwent | £3,030,371 |
| Gogledd Cymru | £10,498,021 |
| Powys | £1,675,572 |
| Gorllewin Morgannwg | £2,419,828 |
| Gorllewin Cymru | £2,026,561 |

**Nifer yr unigolion sy'n cael gafael ar gymorth**

**43,404**

024/2025

# Model Gofal Gartref o'r Ysbyty 2024/2025

| Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf Morgannwg | Gwent | Gogledd Cymru |
|---|---|---|---|
| Dyraniad cyllid | Dyraniad cyllid | Dyraniad cyllid | Dyraniad cyllid |
| £6,444,077 | £4,026,135 | £6,159,574 | £3,454,244 |

| Powys | Gorllewin Morgannwg | Gorllewin Cymru | |
|---|---|---|---|
| Dyraniad cyllid | Dyraniad cyllid | Dyraniad cyllid | Nifer yr unigolion sy'n cael gafael ar gymorth |
| £800,702 | £8,409,994 | £6,306,966 | 169,878 |

# Model Gofal Atebion Seiliedig ar Lety 2024/2025

**Caerdydd a'r Fro**

Dyraniad cyllid

**£216,520**

**Cwm Taf Morgannwg**

Dyraniad cyllid

**£130,000**

**Gogledd Cymru**

Dyraniad cyllid

**£685,823**

**Gorllewin Morgannwg**

Dyraniad cyllid

**£94,363**

**Gorllewin Cymru**

Dyraniad cyllid


**£970,351**

Nifer yr unigolion sy'n cael gafael ar gymorth

**1,840**

# Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng

**Mae pobl hŷn yn gyfran sylweddol o'r rhai sy'n cael mynediad at ofal brys ac argyfwng yng Nghymru. Mae'r Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng yn rhoi fframwaith strategol i ddarparu gofal amserol sy'n canolbwyntio ar y person, a gofal integredig, gan leihau derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi a gwella canlyniadau.**



Mae sicrhau bod y nodau hyn yn cydweddu â llwybrau gofal integredig i bobl hŷn yn hanfodol i gwrdd â heriau poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy.

Y Chwe Nod a'u perthnasedd i System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru

**Nod 1: Cydgysylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng**

**Nod 2: Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf**

**Nod 3: Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn lle mynd i'r ysbyty**

**Nod 4: Ymateb cyflym mewn argyfwng**

- Mae pobl hŷn yn aml yn profi anghenion iechyd cymhleth ac ansicrwydd ynghylch ble i geisio help.
- Mae gwaith wedi'i wneud i wella mynediad at gyngor clinigol 24/7 a brysbennu drwy ganolfan gyswllt glinigol WAST, GIG 111 a Phwyntiau Mynediad Sengl BILlau gyda'r bwriad o gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal gofal rhag cael ei ddwysau'n ddiangen i ymateb ambiwlans a chludo pobl i'r ysbyty.
- Mae gwella gwasanaethau ymateb i gwympiadau yn hanfodol er mwyn lleihau niwed y gellir ei osgoi a derbyniadau i'r ysbyty ymhlith pobl hŷn.
  Nod Fframwaith Cymunedol Cenedlaethol Cymru ar gyfer Ymateb i Gwympiadau yw gwella canlyniadau a phrofiad pobl sy'n cwympo drwy wella'r amseroedd ymateb cychwynnol a lleihau'r risg o orwedd am hir a all arwain at arhosiad hirach yn yr ysbyty. Mae'r fframwaith yn nodi'r gofyniad i bob bwrdd iechyd lleol gael gwasanaethau ymateb cwympiadau Lefel 1 a Lefel 2 yn weithredol 12 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, gyda rhychwant daearyddol llawn ac ymateb gofal brys o fewn 2 awr.
- Mae cynyddu mynediad at wasanaethau gofal brys yr un diwrnod a chynyddu mynediad uniongyrchol o wasanaethau cymunedol a WAST yn flaenoriaeth – gall y gwasanaethau hyn a'r gwasanaethau eiddilwch acíwt wrth ddrws ffrynt yr ysbyty leihau derbyniadau i'r ysbyty i bobl hŷn sydd â chyflyrau sy'n acíwt ond y mae modd eu rheoli.

**Nod 5: Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r claf ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty**

- Mae atal datgyflyru sy'n digwydd yn yr ysbyty yn hanfodol i helpu pobl bobl hŷn i barhau i weithredu'n ymarferol ac i gynnal ansawdd eu bywyd. Mae modelau rhyddhau integredig fel Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (D2RA) a systemau rheoli gweledol fel Red2Green yn cefnogi pontio amserol o'r ysbyty i'r cartref, gan leihau'r risg a hybu adferiad.

**Nod 6: Dull 'gartref yn gyntaf' a lleihau'r risg o fynd yn ôl i'r ysbyty**

- Mae oedi o ran llwybrau gofal yn effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn. Mae'n hanfodol bod y broses gynllunio ar gyfer rhyddhau claf yn digwydd yn llyfn a bod gofal yn cael ei gydgysyllu mewn modd integredig.
- Yn aml bydd gan bobl hŷn fwy nag un afiechyd, a bregusrwydd cymdeithasol. Mae llwybrau gofal cydgysylltiedig yn gwella diogelwch a phrofiad ac mae gweithredu modelau rhyddhau-i-asesu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth allweddol.

## Canlyniadau yn 2024/2025

- Arweiniodd y rhaglen genedlaethol y gwaith o ddatblygu a lansio strategaeth gofal brys yr un diwrnod ar gyfer Cymru i sicrhau bod gwasanaethau cyson a llwybrau clinigol cadarn ar waith i alluogi mynediad uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol gwasanaethau/iechyd allweddol.
- Mae gwasanaethau yn cael eu datblygu i helpu i integreiddio gwasanaethau eiddilwch ar draws gwasanaethau ysbyty 'drws ffrynt', gan gynnwys adrannau brys, unedau ambiwlans neu arhosiad byr a gofal brys yr un diwrnod - gan weld tua 9,500 o gleifion y mis gyda mwy na 80% yn cael eu rhyddhau heb fod angen iddynt aros yn yr ysbyty.
- Derbyniodd 105 o gartrefi gofal offer codi yn dilyn cwympiadau ac mae 1000 o staff cartrefi gofal ledled Cymru wedi cael hyfforddiant rheoli ac ymateb i gwympiadau Lefel 1, a ddarperir gan Ambiwlans Sant Ioan Cymru.
- Er mwyn asesu effaith y Fframwaith Optimeiddio Llif Cleifion mewn Ysbytai, mae pedwar mesur allweddol bellach yn adroddadwy ar lefel gyfanredol ar gyfer pob bwrdd iechyd. Mae cronfa ddata a dangosfwrdd cenedlaethol wedi'u datblygu i gefnogi metrigau D2RA.
- Cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Genedlaethol ar Atal Datgyflyru Cleifion ar 4 Tachwedd 2025. Fe wnaeth y rhaglen Chwe Nod lansio'n ffurfiol yr offeryn DEWI sy'n caniatáu mesur syndrom datgyflyru, lleihau niwed mewn ysbytai a gwella rhyddhau drwy gefnogi pobl i aros mor annibynnol â phosibl.
- Mae Gwasanaeth Cyswllt Toresgyrn wedi'i sefydlu mewn chwe bwrdd iechyd, gyda chytundebau ar waith rhwng Powys ac ysbytai cyffredinol cyfagos i sicrhau bod gan gymunedau Powys fynediad at wasanaeth o'r fath.

## Casgliad

Bydd ymgorffori'r Chwe Nod o fewn modelau gofal integredig ar gyfer pobl hŷn yn gwella mynediad, yn lleihau oedi, ac yn gwella ansawdd bywyd. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r weledigaeth o system iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y gofal cywir, yn y lle iawn, ar yr adeg iawn.

# Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

**Mae'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn parhau i ysgogi trawsnewid ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar fodelau integredig sy'n gwella mynediad, atal, a chynaliadwyedd.**

Mae Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys a'r model 24/7 wedi ehangu mynediad at ofal y tu allan i oriau traddodiadol, gan wella ymatebolrwydd i gleifion. Mae gwelliannau digidol a data wedi datblygu platfformau a dadansoddeg a rennir, tra bod mentrau'r gweithlu wedi cyflwyno llwybrau hyfforddi newydd a rolau hyblyg i wella recriwtio a chadw. Mae atal a llesiant yn parhau i fod yn ganolog, gyda mwy o bwyslais ar atal gordewdra a chymorth iechyd meddwl.

Un o alluogwyr allweddol y cynnydd hwn oedd Cronfa'r Rhaglen Strategol Gofal Sylfaenol gwerth £3.8 miliwn, y mae £2.1 miliwn ohono yn cefnogi'r rhaglen ACD, gan ddarparu adnoddau hanfodol ar gyfer llywodraethiant a chynllunio integredig. Roedd y gronfa hefyd yn cefnogi prosiectau atal gordewdra, gan gynnwys Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan, sy'n cyd-fynd â'r strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach. Mae'r buddsoddiadau hyn yn cyflymu trawsnewid, yn sicrhau parhad gwasanaethau, ac yn meithrin ymgysylltu â'r gymuned ac arloesi digidol.

Mae anghenion recriwtio a hyfforddiant yn alluogwyr allweddol ac yn cynnig cyfleoedd i gryfhau'r broses o gynllunio'r gweithlu a datblygu atebion arloesol ar gyfer gwydnwch yn y dyfodol. Mae'r effaith gyffredinol ar y gweithlu wedi bod yn gadarnhaol, gan ymgorffori dysgu ar draws byrddau iechyd ac atgyfnerthu fframweithiau gwerthuso.

Wrth edrych ymlaen, mae cyfle cryf i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd, drwy'r canlynol:

- **Gwella gwydnwch y gweithlu** drwy hyfforddiant estynedig a rolau hyblyg.
- **Integreiddio pellach rhwng iechyd a gofal cymdeithasol**, gan sicrhau gwasanaethau di-dor i gymunedau.
- **Adolygu seilwaith digidol** i ddatgloi llawn botensial gofal sy'n cael ei yrru gan ddata.
- **Ehangu cynlluniau arloesol yn llwyddiannus** a sefydlu gweithio clwstwr yn sylfaen ar gyfer trawsnewid cynaliadwy.
- **Cynyddu ymgysylltu â'r cyhoedd a chydgynhyrchu** i lunio gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

# Casgliad a'r Camau Nesaf

**Mae'r System Gofal Cymunedol Integredig i Gymru yn cael ei datblygu'n weithredol drwy gydweddu a defnyddio rhaglenni cyllido a thrawsnewid mewn ffordd strategol, gan wneud y gorau o fuddsoddiad Llywodraeth Cymru a sicrhau synergedd rhwng prosiectau buddsoddi refeniw a chyfalaf. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl allweddol wrth ddatblygu a chyflwyno ICCS i Gymru, cynyddu cefnogaeth draws-sector a sicrhau cydweithredu o ran polisi.**

**Bydd y blaenoriaethau ar gyfer 2025-26 yn sicrhau mwy o gydweddu ac eglurder a rhagor o gyfleoedd dysgu ledled y rhaglenni cyllido a byddant yn canolbwyntio ar y canlynol:**

1. **Cryfhau Cydweddu ar draws Ffrydiau Cyllido**
Cryfhau prosesau integreiddio ar draws rhaglenni cyllido, gan sicrhau mwy o synergedd rhwng buddsoddiadau refeniw a chyfalaf er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau cydlynol.

2. **Gweithio ar Raddfa a Rhannu Arferion Effeithiol**
Ehangu cyrhaeddiad prosiectau llwyddiannus ar draws ardaloedd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a hyrwyddo arferion gorau ac arloesol er mwyn sbarduno gwelliant yn y system gyfan.

3. **Gwella Mewnwelediad Ansoddol ac Adrodd Hanesion**
Hyrwyddo'r broses o gasglu a defnyddio data ansoddol drwy wreiddio ymgysylltiad sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy gydol oes y prosiect, gan gofnodi'r 'hanes newid' sy'n esblygu.

4. **Cryfhau Mesur Perfformiad Meintiol**
Gwella cysondeb a manylder wrth adrodd ar yr 20 mesur meintiol craidd er mwyn deall yr effaith yn well ar lefel unigol a lefel system.

**5**

**Datblygu Modelau Cenedlaethol drwy Ddysgu ar y Cyd**
Parhau i feithrin Cymunedau Ymarfer er mwyn rhannu dysgu a datblygu manylebau cenedlaethol ar y cyd ar gyfer modelau gofal integredig a'u helfennau allweddol.

**6**

**Arddangos Cyflenwi Integredig ar Raddfa wrth ddatblygu ICCS i Gymru**
Bydd Cymunedau Ymarfer Sefydledig yn parhau i nodi ac amlygu modelau gwasanaeth integredig sy'n ysgogi adnoddau ar draws pob cronfa, gan ddangos manteision pendant i bobl a chymunedau.

**7**

**Gwella Cynllunio Cyfalaf Strategol**
Datblygu a mireinio Cynlluniau Cyfalaf Strategol rhanbarthol i gefnogi buddsoddiad cyfalaf integredig, hirdymor sy'n cyd-fynd â nodau trawsnewid gwasanaethau.